



Holiadur i Unigolion

Cymru

Office for
National Statistics
Swyddfa
Ystadegau Gwladol



Anfonwch yn ôl i: RHADBOST Cyfrifiad 2011, Canolfan Brosesu, y DU

Neges i bawb - ewch ati

Dylai pawb gael eu cynnwys yn y cyfrifiad - pob person, pob cartref, a phob ymwelydd sy'n aros dros nos.

Caiff ei ddefnyddio i gynllunio ac ariannu gwasanaethau ar gyfer eich cymuned - gwasanaethau fel trafnidiaeth, addysg ac iechyd.

Llenwch holiadur y cyfrifiad ar 27 Mawrth 2011, neu cyn gynted ag y bo modd ar ôl y dyddiad hwnnw. Gallwch lenwi ar lein neu ar bapur.

Mae cymryd rhan yn y cyfrifiad yn bwysig iawn, ac mae'n orfodol hefyd. Gallech gael eich dirwyo os na fyddwch yn cymryd rhan neu os byddwch yn rhoi gwybodaeth ffug.

Mae'r gyfraith yn diogelu eich gwybodaeth bersonol. Ac mae gwybodaeth y cyfrifiad yn aros yn gyfrinachol am 100 mlynedd.

Felly, mynnwch fod yn rhan o Gyfrifiad 2011 a helpu i lunio'r dyfodol.

J. N. Matheson

Jil Matheson
Yr Ystadegydd Gwladol

Sut mae cael cymorth?

- www.cyfrifiad.gov.uk
- Llinell gymorth y cyfrifiad 0300 0201 130
- Text Relay 18001 0300 0201 160

Mae cymorth ar gael mewn print mawr ac mewn Braille

Llenwch ar lein



www.cyfrifiad.gov.uk

Eich cod mynediad personol i'r rhyngwyd:

NEU llenwch yr holiadur papur hwn.

Os yw eich cyfeiriad yn anghywir neu ar goll, nodwch eich cyfeiriad cywir yma:

 Cod post

Datganiad

Hyd y gwn i, mae'r atebion yn yr holiadur hwn yn wir ac yn gywir.

Llofnod

Dyddiad

Rhif ffôn

Mae'n bosibl y cysylltw'n â chi, os bydd angen casglu gwybodaeth sydd ar goll.

Mae cyfarwyddiadau ar y dudalen gefn sy'n egluro sut i anfon eich holiadur yn ôl.

I2W



111001

Gwybodaeth bwysig

Pwy ddylai lenwi'r holiadur hwn?

Dylai pawb sydd wedi aros, neu sy'n bwriadu aros, yn y Deyrnas Unedig am 3 mis neu fwy gael eu cynnwys yn holiadur y cyfrifiad.

Mae'r Holiadur i Unigolion hwn ar gyfer tri math o bobl:

- Pobl sy'n byw mewn cartref preifat neu gartref i deulu ac sydd wedi gofyn am Holiadur i Unigolion
- Pobl sy'n byw yn y Deyrnas Unedig fel arfer, ac sydd wedi aros, neu sy'n bwriadu aros, mewn sefydliad cymunedol am 6 mis neu fwy
- Pobl sy'n byw mewn sefydliad cymunedol ac nad oes ganddynt gyfeiriad arferol arall yn y Deyrnas Unedig

Beth yw sefydliad cymunedol?

Sefydliad sy'n cynnig llety preswyl dan reolaeth yw sefydliad cymunedol. Mae 'dan reolaeth' yn y cyd-destun hwn yn golygu bod y llety'n cael ei oruchwylio bob amser neu am ran o'r amser. Os ydych yn byw mewn sefydliad cymunedol, dylech fod wedi derbyn yr holiadur hwn oddi wrth reolwr eich sefydliad.

Enghreifftiau o sefydliadau cymunedol yw neuaddau preswyl i fyfyrwyr, ysgolion preswyl, canolfannau'r lluoedd arfog, ysbytai, cartrefi gofal a charchardai.

Caiff yr holiadur hwn ei sganio gan gyfrifiadur

Dylech:

- ddefnyddio inc du neu las wrth ateb
- ticio eich atebion o fewn y blwch fel hyn:
- ysgrifennu eich atebion mewn priflythrennau o fewn y blwch fel hyn: un llythyren i bob blwch
- cywiro unrhyw gamgymeriadau drwy lenwi'r blwch fel hyn: neu:
- parhau ar y llinell nesaf (os yw'n bosibl) pan na fydd digon o le i'r gair cyfan ar un llinell, fel hyn:
- dilyn y cyfarwyddiadau ➔ **Ewch i**, gan adael yn gwbl wag unrhyw gwestiynau neu dudalennau nad oes angen ichi eu hateb; gallai'r cyfrifiadur gymryd mai atebion yw unrhyw farciau neu linellau



Dechreuwch yma

A1 Pa fath o lety yw hwn?

- Sefydliad cymunedol (er enghraifft neuadd breswyl i fyfyrwyr, ysgol breswyl, un o ganolfannau'r lluoedd arfog, ysbyty, cartref gofal, carchar)
- Cartref preifat neu gartref i deulu ➔ **Ewch i'r Cwestiynau i Unigolyn ar dudalen 4**

A2 A ydych yn ateb y cwestiynau ar ran rhywun arall?

- Ydw – gwnewch yn siŵr eich bod yn nodi manylion y person hwnnw ac nid eich rhai chi wrth lenwi'r holiadur hwn, gan gynnwys cwestiwn A3 isod
- Nac ydw, rwy'n ateb ar fy rhan fy hun

A3 Beth yw eich safle yn y sefydliad hwn?

- ➔ Os ydych yn ateb ar ran rhywun arall, nodwch ei safle ac nid eich safle eich hun
- Preswlydd (er enghraifft myfyriwr, aelod o'r lluoedd arfog, claf, carcharor)
- Aelod o'r staff neu'r perchennog
- Perthynas neu bartner i'r perchennog neu i un o'r staff

Nawr ➔ Ewch i'r Cwestiynau i Unigolyn ar dudalen 4



Cwestiynau i unigolyn

1 Beth yw eich enw?

Enw cyntaf

Cyfenw

2 Beth yw eich rhyw?

Gwryw Benyw

3 Beth yw dyddiad eich geni?

Diwrnod Mis Blwyddyn

4 Ar 27 Mawrth 2011, beth, yn gyfreithiol, yw'ch statws priodasol neu statws eich partneriaeth sifil o'r un rhyw?

- | | |
|--|---|
| <input type="checkbox"/> Erioed wedi priodi na chofrestru partneriaeth sifil o'r un rhyw | <input type="checkbox"/> Mewn partneriaeth sifil gofrestredig o'r un rhyw |
| <input type="checkbox"/> Priod | <input type="checkbox"/> Wedi gwahanu, ond yn gyfreithiol yn dal i fod mewn partneriaeth sifil o'r un rhyw |
| <input type="checkbox"/> Wedi gwahanu, ond yn gyfreithiol yn dal i fod yn briod | <input type="checkbox"/> Wedi bod mewn partneriaeth sifil o'r un rhyw sydd bellach wedi'i diddymu'n gyfreithiol |
| <input type="checkbox"/> Wedi ysgaru | <input type="checkbox"/> Wedi colli partner sifil o'r un rhyw trwy farwolaeth |
| <input type="checkbox"/> Gweddw | |

5 A ydych yn aros mewn cyfeiriad arall am fwy na 30 diwrnod y flwyddyn?

- Nac ydw ➔ Ewch i **7**
- Ydw, yn y Deyrnas Unedig - nodwch y cyfeiriad

Cod post

NEU Ydw, y tu allan i'r Deyrnas Unedig - nodwch enw'r wlad

6 Pa fath o gyfeiriad yw'r cyfeiriad hwnnw?

- Cyfeiriad un o ganolfannau'r lluoedd arfog
- Cyfeiriad arall wrth weithio oddi cartref
- Cyfeiriad cartref myfyriwr
- Cyfeiriad myfyriwr yn ystod y tymor
- Cyfeiriad cartref rhiant neu warcheidwad arall
- Cyfeiriad tŷ gwyliau
- Arall

7 A ydych yn blentyn ysgol neu'n fyfyrwr mewn addysg amser llawn?

Ydw Nac ydw ➔ Ewch i **9**

8 Yn ystod y tymor a ydych yn byw:

- yn y cyfeiriad ar flaen yr holiadur hwn?
- yn y cyfeiriad yng nghwestiwn 5? ➔ Ewch i **43**
- mewn cyfeiriad arall? ➔ Ewch i **43**

9 Ym mha wlad y cawsoch eich geni?

- Cymru ➔ Ewch i **13**
- Lloegr ➔ Ewch i **13**
- Yr Alban ➔ Ewch i **13**
- Gogledd Iwerddon ➔ Ewch i **13**
- Gweriniaeth Iwerddon
- Rhywle arall, nodwch enw presennol y wlad

10 Os na chwawsoch eich geni yn y Deyrnas Unedig, pryd y daethoch i fyw yma ddiwethaf?

➔ Peidiwch â chyfrif ymweliadau byr i ffwrdd o'r DU

Mis Blwyddyn

11 Os daethoch yma cyn 27 Mawrth 2010 ➔ Ewch i **13**

Os daethoch yma ar 27 Mawrth 2010 neu ar ôl hynny ➔ Ewch i **12**

12 Gan gynnwys yr amser yr ydych wedi'i dreulio yma'n barod, am faint yr ydych yn bwriadu aros yn y Deyrnas Unedig?

- Llai na 6 mis
- 6 mis neu fwy, ond llai na 12 mis
- 12 mis neu fwy

13 Sut mae eich iechyd yn gyffredinol?

Da iawn Da Gweddol Gwael Gwael iawn

14 A ydych yn gofalu am aelodau o'r teulu, ffrindiau, cymdogion neu eraill, neu'n cynnig unrhyw help neu gefnogaeth i un neu i rai o'r rhain, oherwydd naill ai:

- salwch neu anabledd corfforol/meddyliol hir dymor?
 - problemau sy'n gysylltiedig â henaint?
- ➔ Peidiwch â chyfrif unrhyw beth y byddwch yn derbyn cyflog am ei wneud
- Nac ydw
- Ydw, 1 - 19 awr yr wythnos
- Ydw, 20 - 49 awr yr wythnos
- Ydw, 50 neu fwy o oriau'r wythnos



**15** Sut fydddech chi'n disgrifio'ch hunaniaeth genedlaethol?

- Ticiwch bob blwch sy'n berthnasol
- Cymro/Cymraes
- Sais/Saesnes
- Albanwr/Albanes
- Gwyddel/Gwyddeles o Ogledd Iwerddon
- Prydeiniwr/Prydeinwraig
- Arall, nodwch

16 Beth yw eich grŵp ethnig?

- Dewiswch **un** o'r adrannau o A i E, yna ticiwch **un** blwch sy'n disgrifio'ch grŵp neu'ch cefndir ethnig

A Gwyn

- Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gwyddelig Gogledd Iwerddon/Prydeinig
- Gwyddelig
- Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig
- Unrhyw gefndir Gwyn arall, nodwch

B Cymysg/grwpiau aml-ethnig

- Gwyn a Du Caribïaidd
- Gwyn a Du Affricanaidd
- Gwyn ac Asiaidd
- Unrhyw gefndir Cymysg/aml-ethnig arall, nodwch

C Asiaidd/Asiaidd Prydeinig

- Indiaidd
- Pacistanaidd
- Bangladeshaidd
- Tsieineaidd
- Unrhyw gefndir Asiaidd arall, nodwch

D Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig

- Affricanaidd
- Caribïaidd
- Unrhyw gefndir Du/Affricanaidd/Caribïaidd arall, nodwch

E Grŵp ethnig arall

- Arabaidd
- Unrhyw grŵp ethnig arall, nodwch

17 A allwch ddeall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg?

- Ticiwch bob blwch sy'n berthnasol
- Deall Cymraeg llafar
- Siarad Cymraeg
- Darllen Cymraeg
- Ysgrifennu Cymraeg
- Dim un o'r uchod

18 Beth yw eich prif iaith?

- Cymraeg neu Saesneg → **Ewch i 20**
- Arall, nodwch (gan gynnwys iaith Arwyddion Prydain)

19 Pa mor dda allwch chi siarad Saesneg?

- Da iawn Da Ddim yn dda Dim o gwbl
-

20 Beth yw eich crefydd?

- Mae'r cwestiwn hwn yn wirfoddol
- Dim crefydd
- Cristnogaeth (pob enwad)
- Bwdhaeth
- Hindŵaeth
- Iddewiaeth
- Islam
- Siciaeth
- Unrhyw grefydd arall, nodwch

21 Flwyddyn yn ôl, beth oedd eich cyfeiriad arferol?

- Os nad oedd gennych gyfeiriad arferol flwyddyn yn ôl, nodwch y cyfeiriad lle'r oeddech yn aros
- Y cyfeiriad ar flaen yr holiadur hwn
- Cyfeiriad myfyriwr yn ystod y tymor/cyfeiriad ysgol breswyl yn y Deyrnas Unedig, nodwch isod
- Cyfeiriad arall yn y Deyrnas Unedig, nodwch isod

Cod post

- NEU** Y tu allan i'r Deyrnas Unedig, nodwch enw'r wlad



Cwestiynau i unigolyn - parhad

22 Pa basbortau sydd gennych?

- Ticiwch bob blwch sy'n berthnasol
- Y Deyrnas Unedig
- Iwerddon
- Arall, nodwch

--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--

- Dim un

23 A oes gennych broblem iechyd neu anabledd sydd wedi para neu sy'n debygol o bara am o leiaf 12 mis, ac sy'n cyfyngu ar eich gallu i wneud gweithgareddau arferol?

- Cynhwyswch broblemau sy'n gysylltiedig â henaint
- Oes, yn cyfyngu'n fawr
- Oes, yn cyfyngu ychydig
- Nac oes

24 Os ydych yn 16 oed neu'n hŷn → Ewch i 25

Os ydych yn 15 oed neu'n iau → Ewch i 43

25 Pa rai o'r cymwysterau hyn sydd gennych?

- Ticiwch **bob** blwch sy'n berthnasol os oes gennych **unrhyw rai** o'r cymwysterau sydd wedi'u rhestru
- Os oes gennych gymhwyster o'r DU nad yw yn y rhestr, ticiwch y blwch sy'n cynnwys yr un sy'n cyfateb orau iddo
- Os oes gennych gymwysterau o'r tu allan i'r DU, ticiwch y blwch 'Cymwysterau tramor' a blychau'r cymwysterau sy'n cyfateb orau iddynt (os gwyddoch beth ydynt)
- 1-4 Lefel O/TAU/TGAU (unrhyw radd), Lefel Mynediad
- NVQ Lefel 1, GNVQ Sylfaen, Sgiliau Sylfaenol
- 5+ Lefel O (wedi pasio)/TAU (gradd 1)/TGAU (graddau A*-C), Tystysgrif Ysgol, 1 Lefel A/2-3 Lefel AS/VCE, Diploma Canolradd Bagloriaeth Cymru
- NVQ Lefel 2, GNVQ Canolradd, Crefft City and Guilds, Diploma Cyntaf/Cyffredinol BTEC, Diploma RSA
- Prentisiaeth
- 2+ Lefel A/VCE, 4+ Lefel AS, Tystysgrif Ysgol Uwch, Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru
- NVQ Lefel 3, GNVQ Uwch, Crefft Uwch City and Guilds, ONC, OND, BTEC Cenedlaethol, Diploma Uwch (Advanced) RSA
- Gradd (er enghraifft BA, BSc), Gradd uwch (er enghraifft MA, PhD, TAR)
- NVQ Lefel 4 - 5, HNC, HND, Diploma Uwch (Higher) RSA, Lefel Uwch BTEC
- Cymwysterau proffesiynol (er enghraifft addysgu, nyrsio, cyfrifyddiaeth)
- Cymwysterau galwedigaethol/cysylltiedig â gwaith eraill
- Cymwysterau tramor
- Dim cymwysterau

26 Yr wythnos ddiwethaf a oeddech:

- Ticiwch bob blwch sy'n berthnasol
- Cynhwyswch unrhyw waith am dâl, gan gynnwys gwaith achlysurol neu dros dro, hyd yn oed os dim ond am awr y buoch yn gweithio
- yn weithiwr cyflogedig? → Ewch i 32
- ar gynllun hyfforddi a noddir gan y llywodraeth? → Ewch i 32
- yn hunan-gyflogedig neu'n gweithio ar eich liwt eich hun? → Ewch i 32
- yn gweithio am dâl neu'n ddi-dâl i'ch busnes eich hun neu i fusnes eich teulu? → Ewch i 32
- i ffwrdd o'ch gwaith yn sâl, ar gyfnod mamolaeth, ar eich gwyliau, neu wedi'ch cadw dros dro o'ch gwaith am na all eich cyflogwr gynnig gwaith ar hyn o bryd? → Ewch i 32
- yn gwneud unrhyw fath arall o waith am dâl? → Ewch i 32
- dim un o'r uchod

27 A oeddech wrthi'n chwilio am unrhyw fath o waith am dâl yn ystod y pedair wythnos ddiwethaf?

- Oeddwn
- Nac oeddwn

28 Petai swydd wedi bod ar gael yr wythnos ddiwethaf, a fydddech wedi gallu dechrau arni o fewn pythefnos?

- Byddwn
- Na fyddwn

29 Yr wythnos ddiwethaf, a oeddech yn aros i ddechrau swydd yr oeddech eisoes wedi'i chael?

- Oeddwn
- Nac oeddwn

30 Yr wythnos ddiwethaf, a oeddech:

- Ticiwch bob blwch sy'n berthnasol
- wedi ymddeol (p'un a oeddech yn cael pensiwn ai peidio)?
- yn fyfyrwr?
- yn gofalu am y cartref neu am y teulu?
- yn sâl neu wedi bod yn anabl am gyfnod hir?
- arall

31 A ydych wedi gweithio erioed?

- Ydw - nodwch y flwyddyn ddiwethaf ichi weithio
- Ewch i 32
- Nac ydw, erioed wedi gweithio → Ewch i 43





32 Atebwch gwestiynau 33-42 am eich prif swydd, neu os nad ydych yn gweithio, am eich prif swydd ddiwethaf.

- Eich prif swydd yw'r swydd yr ydych (oeddech) fel arfer yn gweithio'r nifer fwyaf o oriau ynddi

33 Yn eich prif swydd, a ydych (oeddech):

- yn weithiwr cyflogedig?
 yn hunan-gyflogedig heb gyflogi gweithwyr eraill?
 yn hunan-gyflogedig ac yn cyflogi gweithwyr eraill?

34 Beth yw (oedd) teitl llawn a phenodol eich swydd?

- Er enghraifft, ATHRO YSGOL GYNRADD, MECANYDD CEIR, NYRS ARDAL, PEIRIANNYDD ADEILADU
 ➤ Peidiwch â nodi eich gradd na band eich cyflog

35 Beth ydych (oeddech) chi'n ei wneud yn eich prif swydd?

36 A ydych (oeddech) yn goruchwyllo unrhyw weithwyr?

- Mae goruchwyllo'n golygu cadw golwg ar waith gweithwyr eraill o ddydd i ddydd
 Ydw (oeddwn) Nac ydw (nac oeddwn)

37 Yn eich gweithle, beth yw (oedd) prif weithgarwch eich cyflogwr neu'ch busnes?

- Er enghraifft, ADDYSG GYNRADD, TRWSIO CEIR, ARLWYO CYTUNDEBOL, TRIN CYFRIFIADURON
 ➤ Os ydych (oeddech) yn was sifil, nodwch LLYWODRAETH
 ➤ Os ydych (oeddech) yn swyddog llywodraeth leol, nodwch LLYWODRAETH LEOL, a nodwch enw eich adran yn yr awdurdod lleol

38 Yn eich prif swydd, beth yw (oedd) enw'r sefydliad yr ydych (oeddech) yn gweithio iddo?

- Os ydych (oeddech) yn hunan-gyflogedig yn eich sefydliad eich hun, nodwch enw'r busnes

- Dim sefydliad, er enghraifft yn hunan-gyflogedig, neu'n (arfer) gweithio i unigolyn preifat

39 Os oedd gennych swydd yr wythnos ddiwethaf ➔ Ewch i **40**
 Os nad oedd gennych swydd yr wythnos ddiwethaf ➔ Ewch i **43**

40 Yn eich prif swydd, beth yw cyfeiriad eich gweithle?

- Os ydych yn gweithio gartref neu o'r cartref, ar safle ar y môr, neu os nad oes gennych weithle penodol, ticiwch un o'r blychau isod
 ➤ Os ydych yn atebol i swyddog mewn depo, nodwch gyfeiriad y depo isod

Cod post

- NEU** Gweithio'n bennaf gartref neu o'r cartref
 Gweithio ar safle ar y môr
 Dim gweithle penodol

41 Sut ydych chi'n teithio i'r gwaith fel arfer?

- Ticiwch un blwch yn unig
 ➤ Ticiwch y blwch ar gyfer y rhan hiraf, o ran pellter, o'ch taith arferol i'r gwaith
- Gweithio'n bennaf gartref neu o'r cartref
 Trên tanddaearol, metro, tram neu reilffordd ysgafn
 Trên
 Bws neu fws mini
 Tacsî
 Beic modur, moped neu sgwter
 Gyrru car neu fan
 Teithiwr mewn car neu mewn fan
 Beic
 Cerdded
 Arall

42 Yn eich prif swydd, am sawl awr yr wythnos (gan gynnwys oriau ychwanegol am dâl neu heb dâl) y byddwch yn gweithio fel arfer?

- 15 neu lai
 16 - 30
 31 - 48
 49 neu fwy

43 Nid oes rhagor o gwestiynau.

➔ Ewch i'r dudalen gefn am gyfarwyddiadau ar sut i anfon eich holiadur yn ôl, ac wedyn

➔ Ewch i'r Datganiad ar y dudalen flaen



Sut mae anfon yr holiadur yn ôl ar ôl ei lenwi?

Bydd yr holl wybodaeth bersonol a rowch inni yn cael ei chadw'n gwbl gyfrinachol, a dim ond yn cael ei defnyddio at bwrpas ystadegol.

Mae'r modd y dylech anfon eich holiadur yn ôl yn dibynnu ar y math o lety yr ydych yn byw ynddo. Felly, dilynwch y cyfarwyddiadau perthnasol isod.

Os ydych yn byw mewn sefydliad cymunedol:

- rhowch eich holiadur wedi'i lenwi a'i lofnodi yn yr amlen a ddarparwyd, a'i roi i reolwr eich sefydliad
- os ydych wedi colli'ch amlen, gofynnwch i reolwr y sefydliad am un arall

Os ydych yn byw mewn cartref preifat neu gartref i deulu:

- ar ôl llenwi'r holiadur a'i lofnodi, anfonwch ef yn ôl drwy'r post yn yr amlen a ddarparwyd
- os ydych wedi colli'ch amlen, rhowch eich holiadur wedi'i lenwi a'i lofnodi mewn amlen briodol, a'i anfon i'r cyfeiriad isod

RHADBOST Cyfrifiad 2011,
Canolfan Broesu, y DU

Cofiwch lofnodi'r Datganiad ar y dudalen flaen
cyn anfon eich holiadur yn ôl ar ôl ei lenwi.